# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# a
# DATGANIADAU ARIANNOL

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

*Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyf. Mae Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyf yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a'r Gymdeithasau Budd Cymunedol 2014*
*Rhif Cofrestru 18922R*

**CYNNWYS** **TUDALEN**


| | |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd, Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chynghorwyr Proffesiynol | 1 |
| Adroddiad y Bwrdd Rheoli | 2 |
| Adroddiad Strategol | 3 |
| Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Tai Gogledd Cymru | 19 |
| Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr | 22 |
| Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Gymdeithas | 23 |
| Datganiad Cyfunol o Sefyllfa Ariannol | 24 |
| Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Gymdeithas | 25 |
| Datganiad Cyfunol o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn | 26 |
| Datganiad y Gymdeithas o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn | 26 |
| Datganiad Cyfunol o Llif Arian | 27 |
| Datganiad y Gymdeithas o Llif Arian | 28 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 29 |

## Aelodau'r Bwrdd, Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chynghorwyr Proffesiynol

**Bwrdd Rheoli**

Mrs. C Dixson (Cadeirydd y Grŵp)
Ms. S. Williams (Is-Gadeirydd y Grŵp – penodwyd 22.09.22)
Mr W Farnell (Is-Gadeirydd y Grŵp – ymddiswyddodd 20.06.22)
Mr I. Alderson,
Mr D Owen
Mrs J Roberts
Mr D James
Ms S Davies

**Tîm Gweithredol**
Mrs. H. Kirk (Prif Weithredwr)
Mrs. J. Owen (Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ac Ysgrifennydd Cwmni)
Mr. B Sadler (Cyfarwyddwr Gweithrediadau) (Ymddiswyddodd 30.06.2022)
Ms C. Shiland (Cyfarwyddwr Gweithrediadau) (Penodwyd 26.09.2022)

**Swyddfa Gofrestredig**
Plas Blodwel
Broad Street
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9HL

**Archwilwyr Cofrestredig**

*Archwilydd Allanol*
Beever and Struthers
One Express
1 George Leigh Street
Ancoats, Manceinion, M15 4JE

*Archwilydd Mewnol*
BDO
2 Snow Hill,
Snow Hill Queensway
Birmingham, B4 6GA

**Bancwyr**

Lloyds Banking
New Uberiar House
11 Earl Grey Street
Caeredin EH3 9BN

**Rheolaeth Trysorlys**

Centrus
10 Queen Street
Llundain
EC4R 1BE

**Prif Gyfreithwyr**

Gamlins
14/15 Sgwâr Trinity
Llandudno
Conwy LL30 2RB

Ward Hadaway
5 Wellington Place
Leeds
Ls1 4AP

Anthony Collins Solicitors
134 Edmund Street
Birmingham
B3 2ES

Devonshires Solicitors LLP
Park House

Trowers & Hamlins
Heron House

Park Square West

Leeds LS1 2PW

Albert Square

Manceinion M2 5HD

**Brocwyr Yswiriant**
Marsh
Llawr 1$^{af}$, Columbia Centre
Station Road, Brackenell,
Berks RG12 1LLP

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

Rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus a phrysur arall. Cyflawniad eithriadol oedd gradd dwy seren o dan y cynllun achredu Cwmnïau Gorau i Weithio Iddynt yn Mawrth 2023. Rydym yn hynod falch o'r cyflawniad hwn a welodd ein sgôr yn cynyddu 62.2 pwynt gan gyrraedd y 5 uchaf o blith cymdeithasau tai yn y DU (chwarter pedwar). Cyflawnwyd hyn trwy gyfradd cyfranogiad o 84% sy'n cadarnhau mai dyma yw gwir deimlad ein staff a bod Tai Gogledd Cymru yn 'le gwych i weithio'.

Bu ein staff o bob rhan o'r gymdeithas yn cydweithio'n rhagorol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 erbyn y dyddiad cau, sef 1af Rhagfyr 2022. Gwnaed gwaith sylweddol i newid ein polisïau, gweithdrefnau a'n cytundebau tenantiaeth sydd bellach wedi dod yn
'gontractau meddiannaeth' o dan y gyfraith newydd sy'n rhoi mwy o hawliau i'n preswylwyr.

Fel ein preswylwyr mae chwyddiant uchel iawn a'r argyfwng costau byw wedi gosod her sylweddol i ni. Cwblhawyd ein Strategaeth Gwrthdlodi a Chynhwysiant Ariannol 2023-26 yn ystod y flwyddyn fel ffordd o fynd i'r afael â thlodi a'i osgoi. O dan gyfarwyddyd y strategaeth, rydym wedi gallu cynyddu'r gefnogaeth a roddir i'n preswylwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn trwy ehangu ein tîm Incwm a sefydlu cronfa caledi y gall ein preswylwyr gael mynediad iddi.

Mae llais a boddhad ein preswylwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Rydym wedi cynyddu ein canlyniadau arolwg STAR diweddar yn sylweddol o 78% i 83% ac wedi cyflwyno system newydd - 'Rant and Rave' sy'n cofnodi boddhad preswylwyr unwaith y byddant wedi dod i gysylltiad â gwasanaethau cwsmeriaid neu wedi cael gwaith atgyweirio. Ar hyn o bryd mae hyn yn dangos lefelau bodlonrwydd o 93% ac 87% gyda gwaith atgyweirio a gwasanaethau cwsmeriaid yn y drefn honno. Mae gwaith sylweddol hefyd wedi'i wneud ar 'Prosiect Gwella' sy'n gweld cyflwyno systemau tai a chyllid newydd. Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo'n dda wrth i ni anelu at lansio'r systemau newydd yn ystod 2024/25. Bydd y ddwy system newydd yn ein galluogi i wella pob agwedd ar ein gwaith.

Mae ein buddsoddiad mewn datgarboneiddio yn parhau gyda £128k pellach yn cael ei fuddsoddi yn ein heiddo presennol yn ystod y flwyddyn i'w gwneud yn fwy ynni effeithlon. Roeddem yn hynod falch o fod ar y rhestr fer yng Ngwobrau Northern Housing 2023 ar gyfer y 'Menter Ôl-osod Orau' ar gyfer gwaith aergel a wnaed yn un o'n cynlluniau. Bydd y gwaith a wneir yn helpu i leihau costau ynni i'r preswylwyr yn ogystal â lleihau ein hôl troed carbon. Mae'r buddsoddiad hwn yn rhan fach o'r £5.8m rydym wedi'i fuddsoddi yn ystod y flwyddyn mewn gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a gwella ein cartrefi presennol.

Ein blaenoriaethau o hyd yw diogelwch ein tenantiaid, ein staff, tyfu trwy ddarparu cartrefi newydd a chadernid ariannol. Er i ni barhau i fyw gydag effeithiau'r pandemig a gweld datblygwyr yn cael eu taro gan chwyddiant uchel a achosodd oedi o fewn y sector adeiladu, llwyddom i ddarparu 20 o gartrefi newydd gyda 52 o gartrefi pellach ar y safle wrth i ni barhau i weithio gyda thirfeddianwyr a datblygwyr i gyflawni ein rhaglen ddatblygu uchelgeisiol o 500 o gartrefi newydd dros bum mlynedd.

Er gwaethaf cael ein heffeithio'n andwyol gan y cynnydd sylweddol mewn costau byw, rydym wedi gallu cryfhau ein sylfeini ariannol cryf. Y gwarged gweithredol ar gyfer 2022/23 yw £3.8m. Mae cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu £974k, fodd bynnag mae hyn yn cynnwys colled actiwaraidd o £451k yn y gronfa bensiwn gan adael y busnes beunyddiol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol o £1.4m i'r cronfeydd wrth gefn. Er ei fod yn is na'r hyn a gyllidebwyd, mae hwn yn ganlyniad cryf o ystyried hinsawdd economaidd 2022/23. Cyflawnwyd y canlyniadau hyn hefyd heb gyfaddawdu ar ddarpariaeth gwasanaeth.

Cyflwynwyd canlyniadau busnes cydlynus chwarterol i Lywodraeth Cymru yn ystod 2022/23 ac mae cryfder ein sefydliad a'n hymateb i'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn golygu bod Tai Gogledd Cymru wedi'i sgorio'n risg isel a disgwylir ein dyfarniad blynyddol nesaf yn 2023 /24. Mae'n bleser gan y Bwrdd Rheoli (y 'Bwrdd') gyflwyno ei adroddiad a'i ddatganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**Catherine Dixson - Cadeirydd**

## Adroddiad Strategol

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno ei adroddiad strategol ar faterion y Grŵp.

### Rhagymadrodd

Sefydlwyd Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyfyngedig ym 1974. Heddiw mae'n fenter gymdeithasol lwyddiannus sy'n darparu cartrefi a gwasanaethau i dros 2,700 o aelwydydd ar draws Gogledd Cymru.

Rydym yn llwyr ddeall gwerth a phwysigrwydd cartref da, a'n nod yw gwneud cyfraniad cadarnhaol i'n cymunedau lleol a pharhau i fod yn fuddsoddwr sylweddol yn yr economi ranbarthol.

### Rheolaeth Strategol

*Cynllun Corfforaethol*

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn gosod ein huchelgais a'n dyheadau a'n bwriadau tuag at ein cwsmeriaid, pobl, ein cartrefi a'n cyllid o 2021 i 2024. Ein nod yw cael effaith gadarnhaol sylweddol yng Ngogledd Cymru, a'r canlyniadau dymunol yn y Cynllun Corfforaethol hwn fydd sut rydym yn mesur ein llwyddiant.

Mae datblygiad yn greiddiol i'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Fe wnaethom ail-ariannu yn 2019, a wellodd ein gwerth am arian a rhoi mwy o gapasiti i ni barhau i ddatblygu cartrefi newydd. Yn ein Strategaeth Datblygu, rydym yn nodi ein huchelgais o ddarparu 500 o gartrefi newydd dros y pum mlynedd nesaf i gyfrannu at y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyfan.

Rydym bellach yn nhrydedd flwyddyn y cynllun. Mae cynnydd da wedi'i wneud yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o ran darparu gwasanaethau a gwerth am arian er gwaethaf yr heriau allanol a wynebir gan Covid-19 a'r argyfwng costau byw. Rydym wedi cynnal y lefel uchaf o farn reoleiddiol (Safonol) ar gyfer Llywodraethu a Gwasanaethau a Hyfywedd Ariannol. Mae'r Cynllun i'w weld yn:
https://www.nwha.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/NWH-Corporate-Plan-2021-24-Welsh-external.pdf

Rydym ar hyn o bryd yng nghamau cynllunio cynllun corfforaethol 2024-27 ar ôl ymgynghori'n ddiweddar â'n staff a'r bwrdd. Bydd ymgynghoriad ehangach gyda'r gymuned a'n preswylwyr yn dilyn dros y misoedd nesaf i sicrhau bod y cynllun, ac yn sgil hynny ein hadnoddau, yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n bwysig i'n holl randdeiliaid.

Cenhadaeth

***Trawsnewid bywydau gyda chartrefi gwych, gwasanaethau a chymorth o ansawdd***

Ein gweledigaeth yw:

***Gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, trwy ddarparu cartrefi i fod yn falch ohonynt a chreu cymunedau lle gallant ffynnu***

Gwerthoedd

Ein gwerthoedd, safonau a'n huchelgeisiau yw hanfod Tai Gogledd Cymru. Dyma beth sy'n rhoi ystyr i ni. Bydd pob un o'n pobl yn gweithio tuag at y gwerthoedd hyn, sydd gyda'i gilydd yn disgrifio cymeriad y sefydliad. Ein gwerthoedd sy'n gyrru ein gwaith o wneud penderfyniadau bob dydd, ac mae'r ffordd byddwn yn ymddwyn yn ymgorffori ein gwerthoedd. Ein gwerthoedd craidd yw'r hyn a ganlyn:

- **Agored**… rydym yn dryloyw yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau.
- **Tegwch**… rydym yn agored i bawb, ond yn cau allan rhagfarn. Byddwn yn gweithredu'n bendant i hyrwyddo cydraddoldeb ac yn parchu amrywiaeth.
- **Ymddiriedaeth**… byddwn yn gwneud yr hyn rydym yn addo ei wneud. Byddwn yn ymddwyn yn onest a chywir.
- **Ymatebol**…tuag at anghenion a dyheadau ein cwsmeriaid, ein staff a'n partneriaid.
- **Dysgu**…byddwn yn chwilio am ffyrdd gwell yn y dyfodol. Byddwn yn cydnabod pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau, ac yn dysgu oddi wrthynt. Byddwn yn edrych yn allanol i ddysgu oddi wrth eraill.

Amcanion Corfforaethol

Ein pum amcan craidd yw:

1. Darparu'r gwasanaethau y mae ein cwsmeriaid yn eu dymuno i safon sy'n cynyddu boddhad ein cwsmeriaid, ar gost sy'n sicrhau gwerth am arian.

2. Tîm sy'n cael ei werthfawrogi a'i rymuso sy'n rhoi'r cwsmer wrth galon popeth a wnawn.

3. Darparu cartrefi diogel, ynni effeithlon sy'n cefnogi byw'n annibynnol.

4. Cynnal cryfder a gwytnwch ariannol trwy benderfyniadau rheoli ariannol a buddsoddi cadarn.

5. Cyflenwi cartrefi newydd i ddiwallu angen tai, tyfu ein capasiti a chyfrannu at economi gogledd Cymru

Adolygir perfformiad yn erbyn y cynllun hwn yn rheolaidd, a chaiff y cynllun ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd i adlewyrchu anghenion newidiol ein cwsmeriaid, yr amgylchedd busnes cyfnewidiol yr ydym yn gweithio ynddo, a'r dylanwadau allanol cyfnewidiol yr ydym yn gweithredu oddi tanynt.

Yn ddiweddar rydym wedi dechrau cynllunio ac ymgynghori ar gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024-27 a fydd yn effeithiol o 1 Ebrill, 2024. Rydym wedi ymgynghori â'r bwrdd, arweinwyr a staff a byddwn yn dechrau ar ymgynghoriad cymunedol a thenantiaid ehangach ynghylch y cynllun yn y misoedd nesaf.

**Statws cyfreithiol**

Mae Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Cyfyngedig (TGC neu’r ‘Gymdeithas’) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a’r Gymdeithasau Budd Cymunedol 2014, ac mae’n sefydliad di-elw, sydd wedi’i eithrio rhag cofrestru gyda’r Comisiwn Elusennau.

**Prif Weithgareddau**

Mae'r Gymdeithas a'i his-gwmni dan berchnogaeth lwyr Domus Cambria Limited (y 'Grŵp') yn gweithredu yng Ngogledd Cymru. Eu prif weithgareddau yw darparu llety ar rent i bobl sydd angen tai, a datblygu eiddo preswyl ar werth yn fasnachol.

**Aelodau'r Bwrdd**

Mae aelodau'r Bwrdd wedi'u nodi ar dudalen 1 o'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ac, oni nodir yn wahanol, roeddent yn gwasanaethu trwy gydol y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn. Gall aelodau'r Bwrdd wasanaethu am uchafswm o 9 mlynedd. Ers 1 Ebrill 2020 mae aelodau’r Bwrdd yn derbyn tâl am eu hamser, eu profiad a’u gwybodaeth. Adolygwyd y cyfraddau taliadau ym mis Mawrth a chynyddwyd y rhain o fis Ebrill 2023. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o gyfweld â darpar aelodau bwrdd newydd y gobeithiwn eu penodi’n ffurfiol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2023.

**Llywodraethu Corfforaethol**

Mae'r Gymdeithas yn cael ei llywodraethu gan ein Bwrdd ac mae'n cydymffurfio â Chod Llywodraethu CCC. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob yn ail fis i osod cyfeiriad strategol ar gyfer y Grŵp, adolygu perfformiad yn erbyn amcanion penodol yn y cynllun corfforaethol, cytuno ar bolisïau a strategaethau gweithredu, ystyried busnes parhaus, ac archwilio perfformiad ariannol a gweithredol. Mae'r Bwrdd yn adolygu ei berfformiad ei hun o bryd i'w gilydd er mwyn nodi lle y gallai fod angen profiad ychwanegol. Mae holl aelodau'r Bwrdd yn arwyddo cytundeb gwasanaeth i nodi eu bod yn derbyn eu cyfrifoldebau. Cefnogir y Bwrdd gan Bwyllgor Archwilio a Risg, Pwyllgor Taliadau a Phanel Tenantiaid a Chymunedau.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am strategaeth a rheolaeth y Gymdeithas. Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gyfrifoldebau am archwilio mewnol ac allanol a rheolaeth fewnol. Dirprwyir rheolaeth weithredol y Gymdeithas o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol, a benodir ar gontractau cyflogaeth safonol.

**Tîm Gweithredol**

Mae aelodau'r Tîm Gweithredol wedi'u nodi ar dudalen 1. Nid oes gan aelodau'r Tîm Gweithredol unrhyw fuddiant yng nghyfalaf cyfranddaliadau'r Gymdeithas neu'r is-gwmni ac, er nad oes ganddynt statws cyfreithiol Cyfarwyddwyr, maent yn gweithredu fel Aelodau Gweithredol o fewn yr awdurdod a ddirprwywyd gan y Bwrdd.

**Gweithwyr**

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod bod angen staff medrus, brwdfrydig ac ymroddedig er mwyn cyflawni ein Cynllun Corfforaethol sy'n rhoi ein cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn. Lansiwyd ein Strategaeth Pobl tair blynedd ddiweddaraf ym mis Gorffennaf 2021. Drwy’r strategaeth, rydym wedi gallu targedu meysydd gwella ac wedi gweithio’n galed iawn i wella cadw staff a boddhad swydd ein staff. Mae'r gwaith hwn wedi'i frandio o dan yr ymbarél 'Gwerthfawrogi ein pobl wych' ac mae wedi dod yn rhan annatod o'r hyn a wnawn.

Arweiniodd hyn at gyflawni gradd dwy seren o dan y cynllun achredu Cwmnïau Gorau i Weithio Iddynt ym mis Mawrth 2023. Rydym yn hynod falch o'r cyflawniad hwn a welodd ein sgôr yn cynyddu 62.2 pwynt i gyrraedd y 5 cymdeithas tai uchaf yn y DU yng nghanlyniadau'r pedwerydd chwarter. Cyflawnwyd hyn trwy gyfradd cyfranogiad uchel o 84% o'n pobl sy'n ei wneud hyd yn oed yn fwy arbennig.

Rydym yn parhau i gynnal sesiynau gwrando staff rheolaidd gydag aelodau o'r Uwch Dîm Arwain (UDA) a'r holl staff sy'n rhoi cyfle i'n pobl fynegi pryderon neu rannu arfer da gyda chydweithwyr a'r UDA. Rydym wedi adolygu telerau ac amodau a hefyd wedi cynnal ymarfer meincnodi cyflog i sicrhau bod ein pobl yn cael eu talu'n deg am y gwaith y maent yn ei wneud. Rydym yn parhau i ddatblygu ein polisi gweithio ystwyth ac yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg lle bynnag y bo modd.

Yn 2021, roeddem yn falch iawn o gyrraedd y safon Aur gyda 'Buddsoddwyr mewn Pobl'. Roedd hyn yn welliant rhagorol ar y safon Arian a ddyfarnwyd yn flaenorol. Mae hyn yn seiliedig ar farn ein staff ac yn achrediad y byddwn yn falch iawn o'i ddal am y ddwy flynedd nesaf.

Rydym hefyd ar daith i roi diwylliant hyfforddi ar waith yn y sefydliad. Mae rhan annatod o hyn wedi cynnwys aelodau o'n Uwch Dîm Arwain yn dilyn cymwysterau Hyfforddi a Mentora fel y gallwn gynnig y gwasanaethau a'r cymorth hyn i'n staff. Rydym hefyd yn buddsoddi yn ein harweinwyr gyda llawer ohonynt yn dilyn cymwysterau rheoli ar hyn o bryd.

Mae Iechyd Meddwl a Lles yn parhau i fod yn hynod bwysig i ni. Rydym wedi brandio ein rhaglen Iechyd a Lles fel CALON. Mae rhaglen flynyddol CALON yn manylu ar hybu iechyd a mentrau y mae hyrwyddwyr CALON brwdfrydig TGC yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn. Rhennir gwybodaeth yn rheolaidd a threfnir digwyddiadau ar gyfer ein pobl gyda'r nod o wella eu hiechyd a'u lles.

Ar ôl dwy flynedd o fethu dod at ein gilydd o ganlyniad i'r pandemig, braf iawn oedd gallu cynnal dwy gynhadledd staff yn ystod y flwyddyn oedd yn gyfle gwych i'n pobl ddod ynghyd ac yn gyfle i ni rannu gwybodaeth ac ymgynghori â staff ar feysydd amrywiol megis Datgarboneiddio, Taliadau Gwasanaeth ac ymgysylltu â Thenantiaid.







Mae ein grŵp Thrive yn canolbwyntio ar ddysgu a datblygu. Mae datblygu ein pobl yn hynod o bwysig i ni ac rydym wedi cynnig nifer o gyfleoedd secondiad a rolau datblygu gan gynnwys prentisiaethau yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd wedi cynnig cyfleoedd profiad gwaith.

Ym mhob maes o'n gwaith, rydym wedi ymrwymo i driniaeth deg beth bynnag fo'n hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedl, anabledd, crefydd, oedran, rhyw, iechyd, statws priodasol neu gyfeiriadedd rhywiol a'n ymdrechu i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i gydraddoldeb o gyfle. Rydym wedi ymrwymo i ddyfarniad QED sy'n nod ansawdd i'r sector tai yng Nghymru ar wella effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth ein sefydliad. Ym mis Mai 2023, cymeradwyodd y Bwrdd ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-26. Rydym yn annog amrywiaeth ymhlith ein pobl o dan y faner 'Lle gwych i fod yn chi'ch hun'.

**Llais a Boddhad Preswylwyr**

Mae llais ein preswylwyr a'u boddhad yn hynod o bwysig i ni. Rydym yn mesur boddhad preswylwyr trwy nifer o arolygon trafodol a chanfyddiadol. Ein harolwg sampl mwyaf yw ein harolwg STAR rydym yn ei gynnal gyda'n holl breswylwyr. Cynhaliwyd yr arolwg hwn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2022 i'r

sampl a'r dull gofynnol a nodwyd gan Housemark, clwb meincnodi mwyaf y sector. Cwblhawyd 810 o arolygon. Roedd lefelau bodlonrwydd yn uwch neu'n sefydlog ar draws yr holl ddangosyddion o gymharu â chanlyniadau'r llynedd, gyda'r cyfradd boddhad cyffredinol i fyny 5 pwynt i 83% o breswylwyr yn hapus gyda'n gwasanaeth, ac 80% yn fodlon gyda'r gymdogaeth lle maent yn byw, i fyny 2 bwynt o'r flwyddyn flaenorol. Mae canlyniadau ein harolwg STAR 2022 a chyfeiriad teithio ar draws y gwahanol feysydd boddhad wedi'u crynhoi isod:

| | Meincnod Cymreig | Canlyniad 2021 | Newid dros amser | Canlyniad 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Boddhad cyffredinol | 82% | 78% |  | 83% |
| Ansawdd y cartref | 81% | 78% |  | 78% |
| Diogelwch y cartref | 86% | 81% |  | 85% |
| Gwerth am arian rhent | 81% | 80% |  | 82% |
| Gwerth am arian o dâl gwasanaeth | 68% | 61% |  | 62% |
| Gwaith cynnal a chadw yn gyffredinol | 74% | 69% |  | 74% |
| Gwrando ar safbwyntiau a gweithredu arnynt | 67% | 65% |  | 69% |
| Cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau | 60% | 56% |  | 63% |
| Cael llais mewn rheoli gwasanaethau | 62% | 61% |  | 62% |
| Ymddiried yn Tai Gogledd Cymru | 78% | 71% |  | 74% |
| Cymdogaeth fel lle i fyw | 82% | 78% |  | 80% |
| Delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol | 62% | 56% |  | 56% |



Gwelliant ystadegol sylweddol

Dim newid ystadegol sylweddol



Gostyngiad ystadegol

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd mewn system newydd - 'Rant and Rave' i nodi boddhad preswylwyr gyda chysylltiadau gwasanaeth cwsmeriaid a'r gwasanaeth atgyweirio. Mae hyn yn galluogi cwsmeriaid i leisio unrhyw bryderon ac i faterion a thueddiadau unigol gael eu nodi'n brydlon ac ymateb iddynt. Mae hyn yn cael ei adrodd i'r panel Preswylwyr yn rheolaidd.

Mae preswylwyr sydd wedi cael gwaith atgyweirio wedi'i wneud, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â'n hadran gwasanaethau cwsmeriaid, yn cael arolwg sy'n canolbwyntio ar foddhad cyffredinol â'r broses, yn ogystal â chwestiynau penagored i alluogi preswylwyr i rannu eu barn. Mae'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Uwch Dîm Arwain unwaith y mis a thueddiadau'n cael eu nodi fel y gellir rhoi camau yn ar waith os oes angen. Ar gyfer 2022/23:

- Roedd Bodlonrwydd gyda Gwaith Atgyweiro Trafodol yn 93%
- Roedd Bodlonrwydd Trafodol â Chyswllt Cwsmer yn 87%

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd**

Mae’r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Bwrdd, yr Adroddiad Strategol, a’r datganiadau ariannol yn unol â’r gyfraith a rheoliadau perthnasol.

Mae deddfwriaeth Cymdeithasau Tai yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y ddeddfwriaeth honno mae'r Bwrdd wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol). O dan ddeddfwriaeth Cymdeithasau Tai rhaid i'r Bwrdd beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Gymdeithas ac o warged neu ddiffyg y Grŵp a'r Gymdeithas am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Bwrdd:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu gweithredu'n gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Grŵp a'r Gymdeithas yn parhau mewn busnes

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Grŵp a'r Gymdeithas a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Gymdeithas gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cymdeithasau Tai. Mae’r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Grŵp a'r Gymdeithas ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan y Grŵp. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

**Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr**

Mae pob un o aelodau'r Bwrdd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn wedi cadarnhau:

- hyd y gŵyr aelodau'r Bwrdd, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Grŵp yn ymwybodol ohoni; ac
- mae aelodau'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel aelodau o'r Bwrdd er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilydd y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Datganiad y Bwrdd ar Reolaethau Ariannol Mewnol**

Mae'r Bwrdd yn cydnabod ei gyfrifoldeb yn y pen draw am sicrhau bod gan y Grŵp system o reolaethau sy'n briodol i'r amrywiol amgylcheddau busnes y mae'n gweithredu ynddynt. Mae'r rheolaethau hyn wedi'u cynllunio i roi sicrwydd rhesymol mewn perthynas â’r canlynol:

- dibynadwyedd gwybodaeth ariannol o fewn y Grŵp neu ar gyfer ei chyhoeddi;

- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir; a
- diogelu asedau rhag eu defnyddio neu eu gwaredu heb awdurdod.

Cyfrifoldeb y Bwrdd yw sefydlu a chynnal systemau rheolaeth fewnol. Mae systemau o'r fath wedi'u cynllunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, a gallant ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig yn erbyn camddatganiad neu golled sylweddol. Mae yna broses barhaus i adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol ac mae'r system hon wedi bod ar waith trwy gydol y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol. Ymhlith yr elfennau allweddol y mae sicrhau'r canlynol:

- bod polisïau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith gan gynnwys dogfennu systemau a rheolau allweddol sy'n ymwneud â dirprwyo awdurdodau, sy'n caniatáu monitro rheolaethau ac yn cyfyngu ar ddefnydd anawdurdodedig o asedau'r Gymdeithas;
- bod staff profiadol sydd â chymwysterau addas yn cymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau busnes pwysig. Bod gweithdrefnau gwerthuso blynyddol wedi'u sefydlu i gynnal safonau perfformiad;
- system reolaidd, amserol, gywir a chynhwysfawr o adrodd ariannol, cyllidebu a chynllunio ar gyfer monitro perfformiad a'r risgiau a'r amcanion busnes allweddol;
- bod gan y Bwrdd strategaeth a pholisi ar dwyll, sy'n ymwneud ag atal, canfod ac adrodd ar dwyll ac adennill asedau;
- bod pob menter newydd arwyddocaol, ymrwymiadau sylweddol a phrosiectau buddsoddi yn ddarostyngedig i weithdrefnau awdurdodi ffurfiol;
- cynnal adolygiad rheolaidd o'r strwythur sefydliadol a'r sefydliad gyda lefelau awdurdod a rhannu cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir; a
- bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu adroddiadau gan reolwyr, archwilwyr mewnol a chan yr archwilwyr allanol i roi sicrwydd rhesymol bod gweithdrefnau rheoli ar waith ac yn cael eu dilyn. Bod gweithdrefnau ffurfiol wedi'u sefydlu ar gyfer cychwyn camau priodol i gywiro gwendidau a nodwyd o'r adroddiadau uchod.

Yn unol â'r canllawiau ar adrodd ar reolaethau mewnol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yng nghylchlythyr 02/10, mae'r Bwrdd wedi adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ac ni chanfu unrhyw wendidau a fyddai'n arwain at golledion sylweddol, eitemau digwyddiadol neu ansicrwydd.

**Digwyddiadau ar ôl Diwedd y Flwyddyn**

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl Diwedd y Flwyddyn i'w hadrodd.

**Busnes Gweithredol**

Disgrifir gweithgareddau'r Grŵp, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad yn y dyfodol, ei sefyllfa ariannol, amcanion rheoli risg ariannol, manylion ei offerynnau ariannol, a'i sefyllfa o ran wynebu risg credyd, hylifedd a llif arian yn yr Adroddiad Strategol. Aeth Tai Gogledd Cymru i mewn i'r argyfwng costau byw mewn iechyd ariannol da ac mae'r sefyllfa hon wedi'i chynnal. Mae hylifedd yn dda gyda mynediad at £18m ar ffurf cyfleuster credyd cylchdro. Y uchdwr yswiriant llog ar gyfer 2022/23 yw £543,000.

Rydym yn parhau i ddangos sefyllfa ariannol iach o safbwynt hylifedd ac uchdwr cyfamod. Mae gennym sicrwydd darpariaeth drwgddyledion ac rydym wedi gosod llawer o'n contractau i gynnig mwy o sicrwydd

ariannol yng ngoleuni'r argyfwng costau byw y mae'r wlad yn ei wynebu. Rydym hefyd wedi adolygu ein cynllun busnes ac rydym o'r farn ei fod yn gadarn gyda darpariaethau digonol ar waith i ddiogelu'r Gymdeithas.

Er bod ein hôl-ddyledion rhent wedi cynyddu ychydig yn ystod y flwyddyn, mae hwn yn ganlyniad da yng nghanol argyfwng costau byw, yn dilyn pandemig byd-eang. Mae ein tîm Incwm wedi gweithio trwy ailstrwythuro llwyddiannus ac wedi gweithio'n dda gyda'n preswylwyr i'w helpu i reoli eu harian trwy gyfnod anodd. Mae ein cynnig cyngor ariannol wedi'i gynyddu gyda holl aelodau'r tîm yn gallu darparu cyngor ariannol sylfaenol a dau swyddog arbenigol yn gweithio i gefnogi preswylwyr gyda sefyllfaoedd ariannol mwy cymhleth. Cyflwynwyd cronfa caledi i gefnogi ein preswylwyr yn ystod y flwyddyn ac mae gennym ragor o arian ar gael yn 2023/24.

Mae gwaith sylweddol hefyd wedi'i wneud i asesu fforddiadwyedd ein rhenti a ddangosodd fod ein holl renti a thaliadau gwasanaeth yn parhau i fod yn fforddiadwy i'n tenantiaid. Ategwyd hyn gan ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda phreswylwyr yn ystod y flwyddyn. Roedd y canlyniadau hefyd yn dangos ein bod mewn lle da o ran fforddiadwyedd.

Yn anffodus, rydym wedi rhoi'r gorau i ddau gynllun datblygu yn ystod y flwyddyn oherwydd nad ydynt bellach yn hyfyw yn ariannol yn dilyn problemau gyda'r safleoedd a diffyg galw am osodiadau. Er bod hyn yn siomedig ac yn rhwystr i'n huchelgais datblygu, dyma oedd y penderfyniad cywir i'w wneud ac yn ffordd o ddiogelu gweddill y rhaglen ddatblygu yn ddarbodus drwy dynnu allan o'r cynlluniau. Nid oedd y colledion a wnaed ar y cynlluniau yn ddigon mawr i roi unrhyw bryderon busnes gweithredol inni ar gyfer y grŵp ehangach.

Gwariwyd dros £5miliwn ar waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw arferol yn ystod y flwyddyn er gwaethaf rhai problemau a gafwyd gyda chael deunyddiau a chontractwyr. Nid oedd hyn yn rhy wahanol i'r swm a gyllidebwyd. Bu'r tîm Cartrefi hefyd yn gweithio'n galed iawn yn ystod y flwyddyn i glirio'r ôl-groniad o waith y gwnaethom ddechrau'r flwyddyn gyda nhw.

Mae gan y Grŵp adnoddau ariannol sylweddol ac, o ganlyniad, cred y Bwrdd fod y Grŵp mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes yn llwyddiannus, er gwaethaf yr heriau allanol a wynebir.

Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol bod gan y Gymdeithas a'r Grŵp adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Yn unol â hynny, maent yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

**Archwilwyr**

Hon oedd trydedd flwyddyn ein contract archwilio allanol gyda Bever & Struthers.

*Polisïau a Strategaethau Allweddol*

Mae gan y Grŵp ystod eang o bolisïau a strategaethau sy'n llywodraethu sut rydyn ni'n gweithio a sut rydyn ni'n cyflawni ein hamcanion. Mae'r rhain yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer ein byrddau a'n pwyllgorau, cynlluniau corfforaethol a busnes, rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol, a pholisïau a strategaethau ar gyfer ymdrin â disgyblaethau fel rheoli trysorlys, rheoli tai a thenantiaeth, cynnal a chadw a gwaith trwsio a phersonél.

Ymhlith y strategaethau newydd a awdurdodwyd yn ystod y flwyddyn roedd y strategaeth Gwrthdlodi a Chynhwysiant Ariannol, y Strategaeth Gyfathrebu a'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Amgylchedd Busnes**

Mae’r Grŵp a’r Bwrdd yn ymwybodol iawn o’r amgylchedd busnes yr ydym yn gweithio ynddo, yn benodol yr amgylchedd rheoleiddiol, effeithiau dylanwadau allanol ar ein gweithrediadau a’r risgiau a wynebwn fel busnes.

*Amgylchedd Rheoleiddiol*

Mae’r Gymdeithas yn cael ei rheoleiddio gan Weinidogion Cymru o dan Ran 1 Deddf Tai (1996). Gwneir hyn drwy Dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru. Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru’r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi’u Cofrestru yng Nghymru (2021) ar 16 Rhagfyr 2021, a daeth i rym yn Ionawr 2022. Cafodd y Fframwaith ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn arferion rheoleiddiol, ac mae’n cynnwys Safonau a statws Rheoleiddiol diwygiedig.

Mae’r fframwaith hwn yn seiliedig ar gyd-reoleiddio, sy’n berthynas lle mae’r ddwy ochr yn gweithio ar y sail o ddim newyddion annisgwyl. Mae anghenion a buddiannau tenantiaid yn hanfodol bwysig ar gyfer rheoleiddio. Mae’r Safonau Rheoleiddiol newydd yn gosod disgwyliadau eglur ar gymdeithasau i ddangos bod tenantiaid yn cael eu galluogi a’u cefnogi i ddylanwadu ar y drefn o wneud penderfyniadau strategol, siapio darparu gwasanaethau, a bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i denantiaid. Rhan ganolog o’r ffordd gyd-reoleiddiol o weithredu yw cyfrifoldeb y Bwrdd o ran llywodraethiant effeithiol,  perfformiad, a hyfywedd ariannol y Gymdeithas. Hefyd bod rhaid iddi wneud hunan arfarniad blynyddol i arfarnu ansawdd y rhannau hyn. Rhaid i’r hunan arfarniad gynnwys cynllun gwella parhaus sy’n enwi’r rhannau i’w gwella.

Mae'r Rheoleiddiwr yn cyhoeddi Dyfarniadau Rheoleiddio ar gyfer Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid, a Hyfywedd Ariannol. Cyhoeddwyd ein Dyfarniad Rheoleiddiol diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar 6 Ionawr 2023. Mae'n bleser gennym adrodd y cadarnhawyd ei fod yn "Cydymffurfio" ar gyfer Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid, a Hyfywedd Ariannol.

*Dylanwadau Allanol*

Ar 18 Rhagfyr 2019 rhyddhaodd Llywodraeth Cymru benderfyniad rhent pum mlynedd o CPI + 1%. Roedd y penderfyniad yn cydnabod argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o’r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy a'r angen i gydbwyso anghenion landlordiaid a buddiannau tenantiaid.

I gydnabod y sefydlogrwydd y mae setliad rhent pum mlynedd yn ei ddarparu i'r sector, gosododd Llywodraeth Cymru gyfres o ofynion y bydd pob landlord cymdeithasol yn eu cyflawni:

- Cryfhau eich dulliau gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn cyfyngu gymaint â phosib ar unrhyw achosion o droi pobl allan o'u tai, a chyflawni cytundeb newydd i beidio troi pobl allan i fod yn ddigartref;

- Cynnal arolwg safonedig o foddhad tenantiaid a darparu'r data i'w gyhoeddi ar wefan ganolog er mwyn helpu tenantiaid i graffu a chymharu perfformiad landlordiaid. Canlyniadau'r arolwg cyntaf i fod ar gael i'w cyhoeddi erbyn Ebrill 2021 ac arolygon i'w cynnal o leiaf bob dwy flynedd wedi hynny;

- Adeiladu ar ymrwymiad presennol i ddarparu tai o ansawdd uchel, mewn perthynas â safonau **Gofod GAD 2020** yn berthnasol ar draws deiliadaeth ar safleoedd[1] sy'n denu cyllid Llywodraeth Cymru, fesul cam o 2021 ymlaen; a

- Gweithio tuag at uchelgais o weld yr holl dai sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd, beth bynnag eu deiliadaeth, yn cyrraedd safonau effeithlonrwydd ynni EPC A o leiaf ar safleoedd sy'n denu unrhyw arian gan Lywodraeth Cymru o Ebrill 2021.

[1] *Sylwch fod safon lawn GAD 2020 yn cynnwys gofynion eraill yn ychwanegol at safonau gofod a bydd angen cwrdd â'r rhain yn llawn ar gyfer cartrefi sy'n cael eu hariannu gan gynlluniau fel Grant Tai Cymdeithasol.*

- Bydd yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol baratoi asesiad blynyddol o fforddiadwyedd, effeithlonrwydd cost a dangos bod eu cartrefi a'u gwasanaeth yn cynrychioli gwerth am arian fel rhan o'u penderfyniad ar y codiad rhent i'w gymhwyso bob blwyddyn. Dylai pob landlord cymdeithasol gyfiawnhau eu codiadau rhent trwy asesiadau blynyddol cadarn ar effeithlonrwydd costau.

Gwnaeth yr Adolygiad o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy hefyd nifer o argymhellion ynghylch y grantiau tai cyfalaf. Mae Model Gweledal Safonol wedi'i ddatblygu a'i fabwysiadu gan Awdurdodau Lleol. Cynhaliwyd adolygiad o ba mor fforddiadwy oedd ein rhenti a thaliadau gwasanaeth ni, a gwelwyd bod 100% ohonynt yn fforddiadwy i'n preswylwyr a gadarnhawyd gan yr ymgynghori a wnaethom gyda nhw.

Cwblhawyd y gwaith o gyflwyno Diwygio Lles yng Ngogledd Cymru ym mhob sir erbyn Rhagfyr 2018, a disgwylir i'r tenantiaid sy'n weddill nad ydynt ar Gredyd Cynhwysol symud cyn mis Rhagfyr 2024. Mae gennym dîm o gynghorwyr cynhwysiant ariannol sy'n gweithio gyda'n preswylwyr i leihau'r effaith o Ddiwygio Lles. Mae'r ddarpariaeth hon wedi cynyddu o ganlyniad i ailstrwythuro'r tîm Incwm. Gwnaed gwaith sylweddol hefyd ar asesu fforddiadwyedd ein rhenti ar gyfer tenantiaid presennol ac yn y dyfodol, a chadarnhaodd y canlyniadau fod 100% o'n rhenti a'n taliadau gwasanaeth yn fforddiadwy. Mae troi allan tenantiaid bob amser wedi bod yn ddewis olaf - ni chafwyd unrhyw achosion o droi allan yn ystod 2022/23. Rydym hefyd wedi dechrau adolygiad llawn o daliadau gwasanaeth sy'n cynnwys ymgynghori â thrigolion ar y gwasanaethau o ran fforddiadwyedd ac ansawdd. Anelwn i'w gwblhau yn 2023/24.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyflwyno Strategaeth Gwrthdlodi a Chynhwysiant Ariannol. Nod y strategaeth yw mynd i'r afael â thlodi strwythurol, gan ddarparu map ffordd ar gyfer mynd i'r afael â'r tlodi acíwt sy'n codi o'r argyfwng costau byw presennol. Ategir y strategaeth gan gynllun gweithredu sy'n targedu pob math o dlodi a wynebir gan ein cymunedau megis tlodi tanwydd, tlodi bwyd, ac ati sydd wedi'i datblygu gan ein tasglu Costau Byw. Ffocws y strategaeth yw adnabod, mesur, mynd i'r afael a lliniaru effeithiau uniongyrchol y cynnydd costau byw a rhoi'r arfau i breswylwyr allu osgoi tlodi tymor hir.

Byddwn yn cyflawni hyn trwy dderbyn cyngor ariannol o ansawdd da gan y Tîm Incwm, perthnasoedd gwaith agos â chydweithwyr o bob rhan o'r busnes ac asiantaethau allanol a chynyddu ein gwybodaeth am broffiliau incwm ein preswylwyr fel y gellir teilwra cymorth a chyngor a'u targedu at breswylwyr a all gael eu hanwybyddu. Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod ein preswylwyr yn gallu cael mynediad at bob ffynhonnell cymorth sydd ar gael iddynt. Bydd y Gronfa Caledi rydym wedi'i sefydlu yn rhan allweddol o hyn gan ei bod yn rhoi cyfle i drigolion wneud cais am gymorth ariannol amserol gyda'r nod yn y pen draw o gynnal eu tenantiaethau.

Eleni hefyd rydym wedi dod i gydymffurfio â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Daeth y gyfraith i rym ar 1 Rhagfyr, 2022 pan gafodd cytundebau tenantiaeth presennol eu trosi'n awtomatig i gontract meddiannaeth. E.e, os oedd tenantiaeth yn denantiaeth fyrddaliol sicr cyfnod penodol, roedd yn trosi i gontract meddiannaeth safonol cyfnod penodol. Os yn denantiaeth fyrddaliol sicr gyfnodol, roedd yn trosi i gontract safonol cyfnodol. Mae pob cartref TGC sy'n dod o dan y ddeddf wedi cael y Contract Trosiad Preswyl priodol ac maent yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel Deiliaid Contract yn hytrach na thenantiaid. Mae swyddogion ac arweinwyr TGC wedi cydweithio i hysbysu ein staff ein hunain, rhanddeiliaid a'n preswylwyr am y newidiadau sy'n gweld mwy o hawliau'n cael eu rhoi i'n preswylwyr.

*Partneriaethau a Pherthnasoedd Allweddol*


Mae'r Gymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau. Mae partneriaid allweddol yn cynnwys y pum Awdurdod Lleol y mae gennym stoc tai ynddynt, Cymdeithasau Tai eraill, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Bartneriaeth Awyr Agored. Mae ein gwaith gydag Awdurdodau Lleol yn cynnwys datblygu cartrefi newydd, darparu cymorth i bobl sydd ei angen, er enghraifft, pobl hŷn a phobl ddigartref, a chymryd rhan mewn Cofrestrau Tai Cyffredin i leihau'r dyblygu i gwsmeriaid wrth wneud cais am gartref.

Mae'r Gymdeithas yn gweithio'n agos gyda Chymdeithasau Tai eraill ar draws Gogledd Cymru. Rydym hefyd yn cyfrannu at ystod eang o fforymau a phartneriaethau gan gynnwys Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru (Tai â Chymorth), timau Digartrefedd yr awdurdodau lleol, Cyfarfodydd Tasg YGG, Consortiwm Hyfforddiant, Rhwydwaith Tai Ifanc, Partneriaeth Cydraddoldeb LCC Gogledd Cymru, Rheolwr Incwm Gogledd Cymru Grŵp, Prosiect 2025, Partneriaeth Diffyg Gwaith Atgyweirio Gogledd Cymru a Phartneriaeth Ôl-osod Gogledd Cymru. Mae gennym hefyd gynrychiolwyr o'n Uwch Dîm Arwain ar amrywiol weithgorau CIC.

*Rheoli Risg*

Mae gan y Grŵp strategaeth rheoli risg gynhwysfawr ar waith er mwyn nodi a monitro risgiau o ran cyflawni ei amcanion busnes. Asesir tebygolrwydd ac effaith risgiau gan ddefnyddio graddau 4 x 4 (sy'n rhoi cyfanswm sgorau risg yn yr ystod 1 i 16).Mae gan risg sgôr gynhenid, sgôr weddilliol (gyfredol) a sgôr targed. Mae cryfder rheolaethau mewnol a nifer y camau sydd eu hangen i wella rheolaethau yn effeithio ar y sgôr weddilliol. Ail-ymwelir â sgoriau hefyd yn dilyn unrhyw adolygiad annibynnol e.e. archwiliad mewnol, arolygiadau

Cofnodir a rheolir risgiau trwy 'Decision Time', cynnyrch meddalwedd sy'n dwyn ynghyd rheoli risg, DPA, cynlluniau cyflenwi a chyfarfodydd llywodraethu. Mae'r sgorau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu tynnu o'r adroddiad risg strategol ar y pwynt lle mae'r gweithgaredd wedi dod i ben, neu lle mae graddfa'r lliniaru yn lleihau'r sgôr risg i'r lefel leiaf posibl. Yn yr un modd lle mae risg weithredol yn cyrraedd statws coch, ychwanegir hyn at y Gofrestr Risg Strategol. Ar 30 Mehefin, 2023 roedd 3 risg coch wedi'u nodi. O'r 21 Risg Strategol, mae 11 wedi'u sgorio'n ambr a 7 yn wyrdd. Mae'r dangosfwrdd isod yn lun o'r sefyllfa ddiweddaraf.




Roedd y risgiau coch yn ymwneud â Datgarboneiddio, Hyfywedd y cynlluniau Tai â Chymorth a methiannau yn y System TGCh.

Mae'r gofrestr risg yn amser real ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd. Yn ogystal â chraffu gan y Bwrdd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio'r cylch rheoli risg. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar newidiadau sylweddol yn y risgiau allweddol a wynebir gan y sefydliad. Mae mynediad i'r gofrestr risg hefyd wedi'i roi i staff yn ddiweddar fel y gellir adolygu'r risgiau fel rhan o gynlluniau tîm trwy gyfarfodydd tîm fel bod risgiau'n dod yn rhan o gynlluniau'r tîm ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd yn ôl yr angen.

*Rheoli Risg Ariannol*

Mae gweithgareddau'r Grŵp yn ei wneud yn agored i nifer o risgiau ariannol gan gynnwys risg credyd, risg llif arian a risg hylifedd. Mae'r defnydd o ddeilliadau ariannol yn cael ei lywodraethu gan bolisïau'r Grŵp a gymeradwywyd gan y Bwrdd, nad ydynt ar hyn o bryd yn caniatáu defnyddio unrhyw ddeilliadau annibynnol. Nid yw'r Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion hapfasnachol.

### *Risgiau Credyd*

Prif asedau ariannol y Grŵp yw balansau banc ac arian parod, ôl-ddyledion rhent, incwm sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru a derbyniadau a buddsoddiadau eraill. Gellir priodoli risg credyd y Grŵp yn bennaf i'w ôl-ddyledion rhent. Mae'r symiau a gyflwynir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn net o lwfansau ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylif ac offerynnau ariannol deilliannol yn gyfyngedig oherwydd mae'r gwrthbartïon yn fanciau gyda statws credyd uchel wedi'i aseinio gan asiantaethau statws credyd rhyngwladol. Nid oes gan y Grŵp grynhoad arwyddocaol o risg credyd, gyda'u hamlygiad wedi'i ddosbarthu ar draws nifer fawr o wrthbartïon a thenantiaid.

### *Risg Hylifedd*

Er mwyn cynnal hylifedd er mwyn sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer gweithrediadau parhaus a datblygiadau yn y dyfodol, mae'r Grŵp yn defnyddio cymysgedd o gyllid dyled hirdymor a byr dymor. Ym mis Medi 2019 cymeradwyodd y Bwrdd ail-ariannu'r portffolio benthyciadau ac uchelgais y cynllun busnes. Roedd hyn yn cynnwys Cyfleuster Credyd Cylchdro (RCF) gwerth £18m i wella hylifedd y sefydliad. Hyd yma mae £15m o'r cyfleuster heb ei ddefnyddio, ac i roi hynny mewn cyd-destun mae'n cyfateb i drosiant blynyddol o bron i 12 mis.

### *Risg Llif Arian*

Mae gweithgareddau'r Grŵp yn ei wneud yn agored yn bennaf i risgiau ariannol newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae'r Grŵp yn defnyddio benthyciadau cyfradd sefydlog i ddiogelu'r datguddiadau hyn.

*Materion Amgylcheddol*

Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol bod gan y Gymdeithas a'r Grŵp adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld. Yn unol â hynny, maent yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

**Y Sail Cyfuno**

Mae datganiadau ariannol y Grŵp yn cyfuno canlyniadau Cymdeithas Tai Gogledd Cymru a'i is-gwmni, Domus Cambria Cyfyngedig.

**Trosiant**

Mae trosiant yn cynrychioli rhenti a thaliadau gwasanaeth (net o golledion rhent a thaliadau gwasanaeth o eiddo gwag), ffioedd a grantiau gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru ac amorteiddio y grantiau cyfalaf dros gyfnod bywyd rhannau o'r adeiladau.

**Cefnogi Pobl**

Caiff yr incwm a dderbynnir ar gyfer Cefnogi Pobl ei gyfateb yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr gyda'r gwariant a dalwyd. Mae'r incwm a gwariant Cefnogi Pobl yn cael ei drin yn y cyfrifon yn yr un modd â'r gweddill o incwm a gwariant y Gymdeithas.

**Eiddo tai a Chyfalafu**

Mae'r eiddo tai yn eiddo sydd ar gael i'w rhentu yn bennaf ac maent yn cael eu cofnodi fel cost llai y dibrisiant sydd wedi cronni. Cost yr eiddo yw'r pris a delir am eu prynu a'r gost sy'n gysylltiedig â'u prynu, costau gweinyddol a'r llog sy'n daladwy hyd at y dyddiad cwblhau ymarferol. Mae eiddo sydd ar gael i'w gwerthu ar brydlesi perchenogaeth a rennir yn cael eu cofnodi fel cost llai yr elw gwerthiannau cam cyntaf. Mae unedau a brynwyd neu a adeiladwyd gyda'r bwriad gwreiddiol o'u gwerthu ymlaen, sy'n parhau heb eu gwerthu ac sy'n cael eu prydlesu ar hyn o bryd wedi'u cynnwys o fewn yr asedau eiddo tai.

Mae gwaith a wneir a fydd yn gwella gwerth eiddo drwy gynyddu lefelau rhenti, yn lleihau costau neu'n cynyddu oes yr ased yn cael eu cyfalafu.

Mae costau gweinyddol datblygiadau, y gellir dangos eu bod wedi'u priodoli'n uniongyrchol i'r gweithgaredd datblygu, yn cael eu hychwanegu i gost asedau sefydlog ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Pan fydd costau datblygu a gweinyddol yn cael eu talu'n fewnol neu drwy ddarparu gwasanaethau i sefydliadau eraill ac na ellir adfer y costau hyn, caiff y rhain eu cofnodi yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Polisi'r Grŵp yw cynnal eiddo mewn cyflwr da parhaus. Bydd unrhyw ostyngiad parhaol i werth eiddo o'r fath yn cael ei gofnodi yn y cyfrif incwm a gwariant. Mae'r Bwrdd wedi cynnal adolygiad o leihad yng ngwerth eiddo ac maent yn fodlon nad oes unrhyw broblemau arwyddocaol ac nad oes unrhyw eiddo wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol am swm sy'n uwch na'r swm y gellir ei adennill arno.

**Dibrisiant Eiddo Tai**

Codir dibrisiant er mwyn ysgrifennu gwerth llyfr net yr eiddo tai i'w hamcangyfrif gwerth gweddilliol ar sail blwydd-dal, yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol. Defnyddir y dull dibrisiant blwydddal oherwydd ystyrir mai dyma sy'n rhoi'r darlun mwyaf teg ac sy'n ystyried egwyddorion cyfatebol cyfrifyddu. Mae'r dibrisiant a godir yn cyfateb â'r buddiannau uwch sy'n cronni dros amser o'r llif rhenti, sy'n deillio o brydlesu parhaus yn ystod oes yr eiddo. Ystyrir gwerth amser arian drwy godi'r tâl dibrisiant o 2.5% y flwyddyn. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Mae elfennau mawr eiddo tai, sydd â phatrymau gwahanol iawn o ddefnyddio buddiannau economaidd, yn cael eu trin fel asedau ar wahân ac maent yn cael eu dibrisio yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol ar y cyfraddau blynyddol canlynol:

| *Elfen* | *Oes Economaidd Ddefnyddiol Tybiedig* |
|---|---|
| Strwythur | Gweler isod |
| Toeon | 75 mlynedd |
| Systemau Gwresogi | 30 mlynedd |
| Boeleri | 15 mlynedd |
| Ffenestri a Drysau | 28 mlynedd |
| Cegin | 15 mlynedd |
| Ystafelloedd Ymolchi | 25 mlynedd |
| Lifftiau | 25 mlynedd |
| Gwaith Datgarboneiddio | 25 mlynedd |
| Estyniad Prydles | Dros weddill oes y brydles |

Mae oes economaidd ddefnyddiol tybiedig a gweddilliol elfen strwythur pob eiddo wedi'i benderfynu gan briswyr annibynnol. Cyfrifwyd eu hoes economaidd ddefnyddiol fel a ganlyn:

| *Categori* | *Oes Economaidd Ddefnyddiol Tybiedig* |
|---|---|

| | |
|---|---|
| 1 Eiddo cyn 1920 – Fflatiau a Thai | 75 mlynedd ers gwaith adfer mawr |
| 2a Fflatiau a Thai sydd wedi'u hadeiladu mewn dull traddodiadol 1920au –1950au | 120 mlynedd ers eu hadeiladu |
| 2b Fflatiau a Thai sydd wedi'u hadeiladu mewn dull traddodiadol 1920au–1950au | 85 mlynedd ers gwaith adfer mawr |
| 3a Tai sydd wedi'u hadeiladu mewn dull traddodiadol 1960au – 1970au | 90 mlynedd ers eu hadeiladu |
| 3b Tai sydd wedi'u hadeiladu mewn dull traddodiadol 1960au–1970au | 70 mlynedd ers gwaith adfer mawr |
| 4 Tai sydd wedi'u hadeiladu mewn dull traddodiadol 1980au–heddiw | 125 mlynedd ers eu hadeiladu |
| 5 Blociau Fflatiau 1960au–1975 | 65 mlynedd ers gwaith adfer mawr |
| 6 Blociau Fflatiau 1975–heddiw | 120 mlynedd ers eu hadeiladu |
| 7 Cynlluniau Gofal Ychwanegol | 125 mlynedd ers eu hadeiladu |

**Cyfalafu Llog**

Mae llog sy'n daladwy yn cael ei gyfalafu yn ystod y gwaith o adeiladu eiddo hyd at y dyddiad cwblhau ymarferol. Mae'r llog naill ai ar fenthyciadau sy'n ariannu cynllun yn benodol (ar ôl didynnu llog ar y Grant Tai Cymdeithasol a dderbyniwyd ymlaen llaw) neu ar fenthyciad net i'r graddau yr ystyrir eu bod yn ariannu cynllun. Mae'r driniaeth hon yn berthnasol waeth beth oedd diben gwreiddiol y benthyciad.

**Eiddo, Peiriannau ac Offer Arall**

Mae eiddo, peiriannau ac offer arall, ac eithrio eiddo buddsoddi, yn cael eu datgan ar eu cost hanesyddol llai'r dibrisiant sydd wedi cronni ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad yn y gwerth. Codir dibrisiant ar sail llinell syth yn ystod oes ddefnyddiol economaidd disgwyliedig yr asedau canlynol:

| *Categori* | *Oes Economaidd Ddefnyddiol Tybiedig* Swyddfa |
|---|---|
| Rhydd-ddaliol | dros 50 mlynedd |
| Eiddo swyddfa prydlesol | dros 5 mlynedd neu oes y brydles os yw'n llai |
| Offer Swyddfa | dros 10 mlynedd |
| System Ffôn | dros 5 mlynedd |
| Offer Cyfrifiadurol | dros 3 blynedd |
| Asedau a gafaelwyd o dan brydles gyllid | dros oes y brydles Asedau |
| cynlluniau | dros 5 mlynedd |

**Eiddo Buddsoddi**

Mae eiddo yn cael ei ystyried yn eiddo buddsoddi ar sail y defnydd bwriadedig o'r eiddo. Eiddo a gedwir i ennill rhenti masnachol neu werthfawrogiad cyfalaf neu'r ddau, nad ydynt yn ffurfio rhan uniongyrchol o gynllun tai cymdeithasol neu nad ydynt wedi'u hariannu drwy grant sy'n cael eu hystyried yn eiddo buddsoddi. Mae eiddo a ddefnyddir at ddibenion gweinyddol neu a ddelir er mwyn darparu tai cymdeithasol yn cael eu trin fel eiddo, peiriannau ac offer arall.

Mae eiddo buddsoddi yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn flynyddol, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu nodi yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Os trosglwyddir eiddo

buddsoddi i eiddo arall, fe'u trosglwyddir ar y gwerth teg a gydnabyddir ar y dyddiad trosglwyddo.

**Asedau Anniriaethol**

Mae asedau anniriaethol yn cael eu nodi ar eu cost hanesyddol, llai amorteiddiad cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad yn y gwerth. Darperir amorteiddiad ar bob ased anniriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased ar sail llinell syth yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

- Trwyddedau cyfrifiadurol dros 3 blynedd

**Lleihad yng ngwerth eiddo tai cymdeithasol**

Nid yw eiddo a ddelir ar gyfer eu budd cymdeithasol yn cael eu cadw at ddibenion y llif arian parod maent yn ei gynhyrchu ac maent yn cael eu cadw ar gyfer eu potensial gwasanaeth. Gwneir asesiad ar bob dyddiad adrodd i nodi a oes dangosydd o leihad mewn gwerth yn bodoli. Os bydd dangosydd o'r fath yn bodoli, cynhelir asesiad o leihad yn y gwerth a gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r ased. Pan fydd swm yr ased yn uwch na'i swm adferadwy, nodir lleihad mewn gwerth yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Swm adferadwy ased yw swm uchaf ei werth o ran gwerth defnydd a theg llai'r costau i'w werthu. Pan ddelir asedau ar gyfer eu potensial gwasanaeth, penderfynir ar ei werth defnydd gan werth presennol potensial gwasanaeth gweddilliol yr ased yn ogystal â swm net y disgwylir y byddant yn ei dderbyn wrth ei waredu.

Bydd colled oherwydd lleihad yn y gwerth yn cael ei wyrdroi os nad yw'r rhesymau dros y lleihad yn y gwerth yn berthnasol mwyach ac mae'n cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

**Grant Tai Cymdeithasol a Grantiau Eraill y Llywodraeth**

Mae grantiau'r Llywodraeth yn cael eu cydnabod gan ddefnyddio'r model cronni ac maent yn cael eu nodi naill ai fel grant sy'n gysylltiedig â refeniw neu grant sy'n gysylltiedig ag asedau. Mae grantiau sy'n gysylltiedig â refeniw yn cael eu nodi mewn incwm yn systemataidd yn ystod y cyfnod y mae'r costau cysylltiedig y bwriadwyd y grant ar eu cyfer. Pan dderbynnir grant fel iawndal am dreuliau neu golledion sydd eisoes wedi'u gwario neu at ddiben rhoi cymorth ariannol ar unwaith heb unrhyw gostau cysylltiedig yn y dyfodol, caiff ei nodi fel refeniw yn y cyfnod y caiff ei dderbyn.

Mae grantiau sy'n gysylltiedig ag asedau yn cael eu nodi fel incwm ar sail systemataidd yn ystod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Mae grantiau a dderbynnir ar gyfer eiddo tai yn cael eu nodi fel incwm yn ystod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y strwythur eiddo tai. Pan dderbynnir grant yn benodol ar gyfer elfennau eiddo tai, nodir y grant fel incwm yn ystod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr elfen. Mae grantiau sy'n cael eu derbyn gan ffynonellau anllywodraethol yn cael eu nodi fel refeniw gan ddefnyddio'r model perfformiad.

**Grantiau Cyllid Tai Llywodraeth Cymru**

Mae Grantiau Cyllid Tai Llywodraeth Cymru yn darparu taliadau grant tai blynyddol mewn rhandaliadau cyfartal dros 30 mlynedd prif gostau a chostau llog benthyciad ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy. Mae gwerth net presennol derbyniadau grantiau yn y dyfodol yn cael eu nodi fel grant cyfalaf gyda swm cyfartal yn cael ei gydnabod fel dyledwr incwm gohiriedig. Mae'r dyledwr yn cael ei gredydu ar ôl i bob taliad grant gael ei dderbyn ac mae'r gwahaniaeth rhwng y taliadau grant a gwerth gostyngol y gyfran berthnasol o'r dyledwr yn cael ei nodi yn y

Datganiad Incwm Cynhwysfawr fel cyfraniad at gost cyllido'r cynllun hwnnw. Mae'r gyfradd ostyngol a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiadau gwerth presennol net yr un gyfradd â'r un sy'n berthnasol i'r benthyciad cysylltiedig ar gyfer ariannu'r asedau tai.

Ystyrir fod elfen grant cyfalaf y Grant Cyllid Tai a dderbyniwyd yn flaenorol yn ad-daladwy ar ôl gwaredu'r ased tai cysylltiedig. Caiff hyn ei drin fel grant cyfalaf wedi'i ailgylchu yn y Gronfa Grant Cyfalaf Ailgylchadwy a chaiff ei gynnwys yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol fel credydwr.

**Ailgylchu Grantiau**

Pan fydd gofyniad i ail-dalu neu ailgylchu grant a dderbyniwyd ar gyfer ased sydd wedi'i waredu, cynhwysir darpariaeth yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol er mwyn cydnabod y goblygiad hwn fel atebolrwydd. Pan dderbynnir cymeradwyaeth gan y corff cyllido i ddefnyddio'r grant ar gyfer datblygiad penodol, mae'r swm a oedd wedi'i gydnabod yn flaenorol fel darpariaeth ar gyfer ailgylchu'r grant yn cael ei ail-ddatgan fel credydwr yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Ar gyfer gwerthiannau cynyddu cyfran perchentyaeth perchenogaeth a rennir, pan nad yw cynnydd cyfran perchentyaeth lawn wedi digwydd, gellir gohirio ailgylchu'r grant os nad yw'r elw o werthiannau net yn ddigonol i gyflawni goblygiad y grant o ran ei waredu ac ni chaiff ei gydnabod fel darpariaeth,  O ran gwerthiannau cynyddu cyfran perchentyaeth dilynol bydd y gofyniad i ailgylchu'r grant yn dod yn rhwymedigaeth os cynhyrchir elw digonol ar werthiannau er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth a bydd darpariaeth yn cael ei chydnabod ar y pwynt hwn.

Wrth waredu ased y derbyniwyd grant gan y llywodraeth ar ei gyfer, os nad oedd unrhyw rwymedigaeth i ad-dalu'r grant, bydd unrhyw grant heb ei amorteiddio sy'n weddill o fewn y rhwymedigaethau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n gysylltiedig â'r ased hwn yn cael ei dadgydnabod fel rhwymedigaeth ac yn cael ei gydnabod fel refeniw fel gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr

**Asedau ar Brydles**

Mae'r Grŵp yn asesu cytundebau sy'n trosglwyddo'r hawl i ddefnyddio asedau. Mae'r asesiad yn ystyried a yw'r trefniant yn, neu'n cynnwys, prydles sy'n seiliedig ar sylwedd y cytundeb.

*Asedau ar Brydles Ariannol*
Mae asedau ar brydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth yn cael eu nodi fel prydlesi cyllid ac maent yn cael eu cyfalafu ar ddechrau'r brydles fel asedau ar eu gwerth teg neu, os yw'n is, gwerth presennol isafswm taliadau'r brydles a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd wedi'i nodi yn y brydles. Mae asedau'n dibrisio yn ystod oes fyrrach tymor y brydles ac oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased. Asesir pob ased am leihad yn y gwerth ar bob dyddiad adrodd. Cofnodir elfen gyfalaf rhwymedigaethau prydlesi fel atebolrwydd ar ddechrau'r trefniant.

*Asedau ar Brydles Weithredol*
Mae prydlesi nad ydynt yn trosglwyddo'r holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth yn cael eu disgrifio fel prydlesi gweithredu. Mae'r taliadau o dan y prydlesi gweithredu yn cael eu nodi yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn ystod cyfnod y brydles.

**Stoc**

Mae eiddo sy'n cael eu hadeiladu o dan y Cynllun Cymorth Prynu yn cael eu cofnodi ar y lefel is o werth costau a net gwireddadwy. Mae'n cynnwys yr holl gostau uniongyrchol a dalwyd er mwyn cwblhau'r eiddo hyn i'w cyflwr gorffenadwy presennol. Nodir costau deunydd ar gost.

**Dyledwyr**

Gwneir darpariaeth yn erbyn ôl-ddyledion pob tenant blaenorol a thenant presennol pan fydd y balans wedi bod yn ddyledus am 13 wythnos neu fwy. Mae pob dyled arall yn cael eu cysoni yn fisol ac mae unrhyw symiau dyledus yn cael eu holrhain cyn gynted ag y byddant yn cael eu nodi. Mae incwm grant yn cronni ar ôl sicrhau y gellir ei dderbyn. Mae dyledion y gellir eu hadfer mewn mwy nac un flwyddyn yn cael eu datgelu ar wahân yn y datganiadau ariannol.

**Bondiau Gostyngol**

Dangosir bondiau gostyngol ar eu gwerth adbrynu llai'r llog wedi'i ohirio. Mae llog wedi'i ohirio yn cynrychioli'r disgownt ar y bondiau gostyngol a chaiff ei ddiystyru drwy'r cyfrif incwm a gwariant ar sail actiwaraidd dros oes y bondiau ar ôl defnyddio cronfeydd y Gymdeithas.

**Benthyciadau sy'n Gysylltiedig â Mynegeion**

Pan fydd cytundebau cyllid yn cynnwys darpariaeth ar gyfer balans cyfalaf dyledus ac y gellir mynegeio'r llog sy'n daladwy yn unol â'r mynegai pris manwerthu neu fynegeion tebyg, mae'r cynnydd mynegeio ar gyfer y flwyddyn yn cael ei godi'n llawn i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

**Ffioedd Trefnu Cyllid**

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â threfnu cyllid personol yn cael eu codi i'r cyfrif refeniw dros gyfnodau byrrach y benthyciadau a'r cyfnod lle bydd y cyfleuster benthyca yn cael ei dynnu i lawr. Mae costau sy'n gysylltiedig ag ail-ariannu benthyciadau yn cael eu diystyru yn ystod y flwyddyn pan fydd y benthyciad yn cael ei ail-ariannu.

**Treth Ar Werth**

Mae'r Grŵp wedi'i gofrestru ar gyfer Treth Ar Werth ("TAW") ond mae cyfran sylweddol o'i hincwm, gan gynnwys rhenti, wedi'i heithrio o TAW. Mae'r rhan fwyaf o'i gwariant yn agored i TAW, ac ni ellir ei adennill ac felly dangosir gwariant yn cynnwys TAW. Sicrhawyd eithriad rhannol ar gyfer rhai gweithgareddau busnes a dangosir y TAW sydd wedi'i adennill fel swm sydd wedi'i gredydu i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

**Trethiant**

Darperir trethiant yn bresennol ar symiau y disgwylir iddynt gael eu talu (neu eu hadfer) gan ddefnyddio'r cyfraddau a'r cyfreithiau treth sydd wedi'u datgan neu wedi'u datgan o ran sylwedd erbyn dyddiad y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

Mae treth ohiriedig yn cael ei chydnabod o ran pob gwahaniaeth amseru sydd wedi tarddu ond heb eu gwrthdroi ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd trafodion neu ddigwyddiadau sy'n arwain at rwymedigaeth i dalu mwy o dreth neu hawl i dalu llai o dreth yn y dyfodol wedi digwydd ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae gwahaniaethu amseru yn wahaniaethau rhwng gwarged trethadwy'r Grŵp a'i ganlyniadau fel y'u nodir yn y datganiadau ariannol sy'n deillio o gynnwys elw a cholledion yn yr asesiadau treth mewn cyfnodau sy'n wahanol i'r rhai lle maent yn cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol.

Mae colledion treth heb eu rhyddhau ac asedau treth gohiriedig eraill yn cael eu cydnabod ond dim ond i'r graddau ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael, y gellir ystyried fwy na thebyg y bydd elw trethadwy addas y gellir didynnu'r gwrthdroad yn y dyfodol o'r gwahaniaethu amseru sylfaenol.

Mesurir treth ohiriedig gan ddefnyddio'r cyfraddau a'r cyfreithiau treth sydd wedi'u datgan neu wedi'u datgan o ran sylwedd erbyn dyddiad y Datganiad Incwm Cynhwysfawr y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ar gyfer gwrthdroi'r gwahaniaeth amseru. Mesurir treth ohiriedig sy'n gysylltiedig ag eiddo, peiriannau ac offer gan ddefnyddio'r model ailbrisio a mesurir eiddo buddsoddi gan ddefnyddio'r cyfraddau a lwfansau treth sy'n berthnasol i werthiant yr ased.

**Pensiynau**

*Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio aml-gyflogwr – Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol* Mae'r Gymdeithas yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio aml-gyflogwr ar draws y diwydiant lle mae'n bosibl i gyflogwyr unigol adnabod eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn. Ariennir cynlluniau buddion wedi'u diffinio, gydag asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau'r Gymdeithas, mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mae asedau cynllun pensiwn yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg a chaiff rhwymedigaethau eu mesur ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol. Sicrheir y prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd o leiaf ac fe'u diweddarir ar bob dyddiad Datganiad Sefyllfa Ariannol. Y symiau a godir ar warged gweithredu yw'r costau sy'n codi o wasanaethau gweithwyr a roddwyd yn ystod y cyfnod a chost cyflwyno'r cynllun, newidiadau i fuddion, setliadau a chwtogiadau. Fe'u cynhwysir fel rhan o gostau staff. Codir y gost llog net ar yr atebolrwydd budd wedi'i ddiffinio net i refeniw a'i gynnwys o fewn costau cyllid. Cydnabyddir adferiad sy'n cynnwys enillion a cholledion actiwaraidd a'r enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys mewn llog net ar yr atebolrwydd budd diffiniedig net) ar unwaith mewn incwm cynhwysfawr arall.

*Cynllun pensiwn aml-gyflogwr â buddion wedi'u diffinio– Cynllun Twf Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol -* Mae'r Gymdeithas yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (y 'Cynllun'), cynllun pensiwn aml-gyflogwr â buddion wedi'u diffinio lle na ellir nodi asedau ac atebolrwydd y Cynllun ar gyfer pob cyflogwr ar wahân. Cyfrifir hyn fel cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio oherwydd nid oes gwybodaeth ddigonol ar gael i roi cyfrif am y Cynllun fel cynllun buddion wedi'u diffinio. Ar gyfer y cynllun aml-gyflogwr hwn, mae cytundeb cytundebol rhwng y Cynllun a'r Gymdeithas sy'n nodi sut y bydd y diffyg yn cael ei ariannu a nodir atebolrwydd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r treuliau o ganlyniad i hyn fel gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar werth presennol y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n deillio o'r cytundeb i'r graddau y maent yn gysylltiedig â'r diffyg.

**Treuliau Rheolwyr**

Mae treuliau rheolwyr wedi'u dyrannu i weithgareddau naill ai'n uniongyrchol neu ar sail amser staff a dreuliwyd ar y gweithgaredd.

**Cronfeydd Ad-dalu Taliadau Gwasanaeth a Chostau Gwasanaeth**

Mae cyfraniadau heb eu defnyddio i gronfeydd ad-dalu taliadau gwasanaeth cronfeydd addalu a gor-adfer costau gwasanaeth sy'n daladwy i denantiaid neu brydleswyr, neu y bwriedir iddynt gael eu hadlewyrchu mewn gostyngiadau i gyfraniadau taliadau gwasanaeth yn y dyfodol, yn cael eu nodi fel atebolrwydd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae'r swm sy'n cael ei gynnwys yn yr atebolrwydd o ran cronfeydd ad-dalu taliadau gwasanaeth yn cynnwys llog sydd wedi'i gredydu i'r gronfa. Pan fydd diffyg adfer taliadau gwasanaeth amrywiol prydleswyr neu denantiaid ac mae bron yn sicr y bydd y balans dyledus yn cael ei adfer, nodir y balans yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel masnach a dderbynnir. Nid yw balansau credyd a debyd ar gynlluniau unigol yn cael eu hagregu am nad oes hawl i wrthbwysiad.

**Offerynnau Ariannol**

Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd y Grŵp yn ymrwymo i ddarpariaethau cytundebol yr offerynnau.

**Asedau Ariannol ar Gost wedi'i Hamorteiddio**

Mae asedau ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys ôl-ddyledion rhent, masnach ac eitemau eraill derbyniadwy ac arian parod ac arian sy'n gyfwerth ag arian parod. Mae asedau ariannol yn cael eu cydnabod i ddechrau ar eu gwerth teg yn ogystal â chostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Ar ôl eu nodi ar y cychwyn, maent yn cael eu mesur ar eu cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Ni roddir disgownt pan fydd effaith disgownt yn amherthnasol.

Os oes tystiolaeth wrthrychol bod colled oherwydd lleihad yn y gwerth, mesurir swm y golled fel y gwahaniaeth rhwng swm cario'r ased a gwerth presennol llif arian amcangyfrifedig yn y dyfodol gyda disgownt ar gyfradd llog effeithiol gwreiddiol yr ased ariannol. Gostyngir swm cario'r ased yn unol â hyn. Bydd ased ariannol yn cael ei ddadgydnabod pan fydd yr hawliau cytundebol i'r llif arian yn dod i ben, neu pan fydd yr ased ariannol a'r risgiau a'r gwobrau sylweddol yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd trefniant yn cynrychioli trafodyn ariannol, mesurir yr ased ariannol ar werth presennol y taliadau yn y dyfodol gyda disgownt ar gyfradd llog y farchnad ar gyfer offeryn dyledion tebyg.

**Atebolrwydd Ariannol ar Gost wedi'i Hamorteiddio**

Mae'r mathau hyn o atebolrwydd ariannol yn cynnwys masnach a symiau taladwy eraill a benthyciadau sydd â llog. Mae offerynnau dyledion nad ydynt yn rhai cyfredol sy'n cyflawni'r amodau angenrheidiol yn FRS 102 yn cael eu cydnabod i ddechrau ar eu gwerth teg, ac wedi'u haddasu ar gyfer unrhyw gostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ac sy'n cael eu mesur wedi hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, gyda thaliadau sy'n gysylltiedig â llog yn cael eu nodi fel treuliau yn y costau ariannol yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Ni chynhwysir disgownt pan fydd effaith disgownt yn amherthnasol. Bydd atebolrwydd ariannol yn cael ei ddadgydnabod pan fydd yr hawliau cytundebol yn dod i ben, hynny yw, pan fydd yr atebolrwydd wedi'i ryddhau, ei ganslo neu wedi dod i ben.

**Benthyciadau Consesiynol Endid Budd Cyhoeddus**

Pan wneir neu derbynnir benthyciadau rhwng endid budd cyhoeddus o fewn y Grŵp neu endid o fewn y grŵp endid budd cyhoeddus a pharti arall o dan gyfradd llog y farchnad nad ydynt yn ad-daladwy ar gais ac sydd at ddibenion i hybu amcanion yr endid budd cyhoeddus neu riant endid budd cyhoeddus, mae'r benthyciadau hyn yn cael eu trin fel benthyciadau consesiynol ac maent yn cael eu nodi yn y Datganiad o'r Sefyllfa ariannol fel y swm a delir neu a dderbynnir a bydd y swm cario yn cael ei addasu er mwyn adlewyrchu unrhyw log cronedig sy'n daladwy neu sydd i'w dderbyn.

**Arian Parod ac Arian sy'n gyfwerth ag Arian Parod**

Mae arian parod ac arian sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon galw, buddsoddiadau hylifol iawn, tymor byr eraill sy'n barod i gael eu trosglwyddo yn symiau hysbys o arian parod ac sy'n wynebu risg ansylweddol i newidiadau yn eu gwerth.

**Taliadau Rhodd Cymorth**

Mae taliadau rhodd cymorth yn cael eu codi fel dosbarthiadau o gronfeydd wrth gefn, yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn natganiad technegol Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr 'Guidance on donations by a company to its parent charity'.

**2. BARN RHEOLI SYLWEDDOL A FFYNONELLAU ALLWEDDOL O ANSICRWYDD AMCANGYFRIFOL**

**FRS 102**

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae angen i'r rheolwyr lunio barn, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisïau a'r symiau o asedau ac atebolrwydd, incwm a threuliau sy'n cael eu cofnodi. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill amrywiol sy'n ffurfio'r sail ar gyfer llunio'r farn am werthoedd asedau ac atebolrwydd nad ydynt yn amlwg iawn o ffynonellau eraill. Mae amcangyfrifon a thybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu ar sail barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod lle bydd yr amcangyfrif yn cael ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnodau yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

**Barnau Rheoli Sylweddol**

*Lleihad mewn gwerth eiddo* Mae'n rhaid i'r Grŵp wneud asesiad i weld a oes dangosydd o leihad mewn gwerth yn bodoli. Wrth lunio'r farn, bu'r rheolwyr yn ystyried y meini prawf manwl yn SORP. Barnwyd na fu unrhyw leihad mewn gwerth eiddo yn ystod y flwyddyn.

*Cyfalafu costau datblygu eiddo*
Mae'r Grŵp yn cyfalafu gwariant datblygu yn unol â'r polisïau cyfrifyddu ar eiddo tai ac eiddo buddsoddi. Mae cyfalafu yn gofyn am ystod o ystyriaethau, megis sefydlu pa gostau datblygu cysylltiedig y dylid eu cyfalafu a pha gostau y dylid eu dileu a'r tebygolrwydd y bydd prosiectau'n parhau.

**Ffynonellau Allweddol o Ansicrwydd Amcangyfrif**

Mae'r Grŵp yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ar gyfer y dyfodol. Anaml iawn y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu hyn, drwy ddiffiniad, yn cyfateb â'r canlyniadau gwirioneddol cysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â risg arwyddocaol o achosi addasiad perthnasol i symiau cario asedau ac atebolrwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu trafod isod:

*Elfennau Eiddo Tai a Oes Defnyddiol*
Mae gan elfennau mawr eiddo tai batrymau defnyddio buddion economaidd gwahanol iawn a gwneir amcangyfrifon er mwyn dyrannu'r gost gychwynnol i'r eiddo i'w elfennau mawr a dibrisio pob elfen ar wahân yn ystod ei oes economaidd ddefnyddiol. Mae'r Grŵp yn ystyried a oes unrhyw ddangosyddion bod angen adolygu'r oes ddefnyddiol ar bob dyddiad adrodd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i fod yn briodol.

*Darpariaeth buddion cynllun pensiwn*
Mae gan y Grŵp rwymedigaethau i dalu buddion pensiwn i rai gweithwyr. Mae cost y buddion hyn a gwerth presennol y rhwymedigaeth yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys disgwyliad oes, codiadau cyflog a'r gyfradd ddisgownt ar fondiau corfforaethol. Mae'r rheolwyr yn amcangyfrif y ffactorau hyn wrth bennu'r rhwymedigaeth pensiwn net yn y fantolen. Mae'r tybiaethau'n adlewyrchu profiad hanesyddol a'r tueddiadau cyfredol. Gallai amrywiadau yn y tybiaethau hyn effeithio'n sylweddol ar yr atebolrwydd (gweler nodyn 27).

**3. GWYBODAETH AM EIDDO AR OSOD A GWYBODAETH ARALL GYSYLLTIEDIG Manylion trosiant, cost gwerthiannau, costau gweithredu a gwarged gweithredu yn ôl dosbarth busnes – Gweithgareddau Parhaus**

| **Y Grŵp** | **2023** | | | | 2022 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Trosiant £'000** | **Cost gwerthiannau £'000** | **Costau gweithredu £'000** | **Gwarged gweithredu £'000** | Trosiant £'000 | Cost gwerthiannau £'000 | Costau gweithredu £'000 | Gwarged gweithredu £'000 |
| **Gosod Tai Cymdeithasol** | | | | | | | | |
| Anghenion Cyffredinol a Thai Gwarchod | **12,019** | **-** | **(8,272)** | **3,747** | 11,630 | - | (8,064) | 3,566 |
| Tai â Chymorth | **2,919** | **-** | **(3,005)** | **(86)** | 2,886 | - | (2,883) | 3 |
| Pobl Hŷn | **2,753** | **-** | **(2,472)** | **281** | 2,707 | - | (2,233) | 474 |
| Perchnogaeth a rennir | **217** | **-** | **(174)** | **43** | 209 | - | (180) | 29 |
| | **17,908** | **-** | **(13,923)** | **3,985** | 17,432 | - | (13,360) | 4,072 |
| **Gweithgareddau Tai Cymdeithasol Eraill** | | | | | | | | |
| Gwasanaethau rheoli | **2** | **-** | **-** | **2** | 6 | - | - | 6 |
| Arall | **248** | **-** | **(531)** | **(283)** | 251 | - | (153) | 98 |
| | **250** | **-** | **(531)** | **(281)** | 257 | - | (153) | 104 |
| **Gweithgareddau Tai sydd ddim yn dai cymdeithasol** | | | | | | | | |
| Tai ar Osod | **96** | **-** | **-** | **96** | 92 | - | - | 92 |
| Eiddo a adeiladwyd i'w gwerthu'n llwyr | **-** | **-** | **(4)** | **(4)** | - | - | (3) | (3) |
| Arall | | | | | | | | |
| | **96** | **-** | **(4)** | **92** | 92 | - | (3) | 89 |
| | **18,254** | **-** | **(14,458)** | **3,796** | 17,781 | - | (13,516) | 4,265 |
| Gwarged ar werthu eiddo | | | | **16** | | | | 35 |
| Addasiad prisiad pensiwn | | | | **-** | | | | 5 |
| (Colled) Gwarged ar ailbrisio Eiddo Buddsoddi | | | | **(18)** | | | | 12 |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwarged Gweithredol** | **3,794** | 4,317 |



**3 . GWYBODAETH AM EIDDO AR OSOD A GWYBODAETH ARALL GYSYLLTIEDIG (Parhad) Manylion trosiant, cost gwerthiannau, costau gweithredu a gwarged gweithredu yn ôl dosbarth busnes – Gweithgareddau Parhaus**

| **Y Gymdeithas** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|

| **Gosod Tai Cymdeithasol** | **Trosiant £'000** | **Cost gwerthiannau £'000** | **Costau gweithredu £'000** | **Gwarged gweithredu £'000** | Trosiant £'000 | Cost gwerthiannau £'000 | Costau gweithredu £'000 | Gwarged gweithredu £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anghenion Cyffredinol a Thai Gwarchod | **12,019** | **-** | **(8,272)** | **3,747** | 11,630 | - | (8,064) | 3,566 |
| Tai â Chymorth | **2,919** | **-** | **(3,005)** | **(86)** | 2,886 | - | (2,883) | 3 |
| Pobl Hŷn | **2,706** | **-** | **(2,425)** | **281** | 2,661 | - | (2,187) | 474 |
| Perchnogaeth a rennir | **217** | **-** | **(174)** | **43** | 209 | - | (180) | 29 |
| | **17,861** | **-** | **(13,876)** | **3,985** | 17,386 | - | (13,314) | 4,072 |
| **Gweithgareddau Tai Cymdeithasol Eraill** | | | | | | | | |
| Gwasanaethau rheoli | **2** | **-** | **-** | **2** | 6 | - | - | 6 |
| Arall | **248** | **-** | **(531)** | **(283)** | 251 | - | (153) | 98 |
| | **250** | **-** | **(531)** | **(281)** | 257 | - | (153) | 104 |
| **Gweithgareddau Tai nad ydynt yn dai cymdeithasol** | | | | | | | | |
| Gosodiadau | **96** | **-** | **-** | **96** | 92 | - | - | 92 |
| Arall | **-** | **-** | **(4)** | **(4)** | - | - | (3) | (3) |
| | **96** | **-** | **(4)** | **92** | 92 | - | (3) | 89 |
| | **18,207** | **-** | **(14,411)** | **3,796** | 17,735 | - | (13,470) | 4,265 |
| Gwarged ar werthu eiddo | | | | **16** | | | | 35 |
| Addasiad Prisiad Pensiwn | | | | **-** | | | | 5 |
| (Diffyg)/Gwarged ar ailbrisio Eiddo Buddsoddi | | | | **(18)** | | | | 12 |
| **Gwarged Gweithredol** | | | | **3,794** | | | | 4,317 |

3. **GWYBODAETH AM EIDDO AR OSOD A GWYBODAETH ARALL GYSYLLTIEDIG (Parhad)**

Manylion incwm a gwariant o dai cymdeithasol ar osod

| **Y Grŵp** | **Tai Anghenion Cyffredinol a Thai Gwarchod £'000** | **Tai â Chymorth £'000** | **Pobl Hŷn £'000** | **Perchenogaeth a Rennir £'000** | **Cyfanswm 2023 £'000** | Cyfanswm 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | |
| Rhent i'w dderbyn | **10,720** | **1,402** | **1,377** | **174** | **13,673** | 13,249 |
| Incwm o Daliadau Gwasanaeth | **532** | **456** | **1,241** | **-** | **2,229** | 2,185 |
| Incwm o wasanaethau cymorth | **-** | **973** | **-** | **-** | **973** | 963 |
| Grantiau'r Llywodraeth sydd wedi'u Hamorteiddio | **767** | **75** | **135** | **43** | **1,020** | 1,022 |
| Grantiau refeniw eraill | **-** | **13** | **-** | **-** | **13** | 13 |
| **Trosiant o dai cymdeithasol ar osod** | **12,019** | **2,919** | **2,753** | **217** | **17,908** | 17,432 |
| **Gwariant** | | | | | | |
| Costau Rheoli | **2,615** | **560** | **462** | **64** | **3,701** | 3,277 |
| Gwariant Taliadau Gwasanaeth | **677** | **1,830** | **1,344** | **-** | **3,850** | 3,469 |
| Cynnal a Chadw Arferol | **2,086** | **293** | **223** | **-** | **2,602** | 2,597 |
| Gwariant Atgyweiriadau Mawr | **945** | **132** | **101** | **-** | **1,178** | 1,159 |
| Dyledion Drwg | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | 65 |
| Dibrisiant eiddo tai | **1,949** | **190** | **342** | **110** | **2,591** | 2,793 |
| **Costau gweithredu ar dai cymdeithasol ar osod** | **8,272** | **3,005** | **2,472** | **174** | **13,923** | 13,360 |
| **Gwarged gweithredu ar dai cymdeithasol ar osod** | **3,747** | **(86)** | **281** | **43** | **3,985** | 4,072 |
| Colli rhent oherwydd eiddo gwag | **69** | **58** | **29** | **-** | **156** | 89 |

Mae swm o £1,054,963 (2022: £1,042,987) wedi'i gynnwys yn yr incwm Tai â Chymorth ar gyfer Cefnogi Pobl.

### 3. GWYBODAETH AM EIDDO AR OSOD A GWYBODAETH ARALL GYSYLLTIEDIG (Parhad)

Manylion incwm a gwariant o dai cymdeithasol ar osod

| Y Gymdeithas | Tai Anghenion Cyffredinol a Thai Gwarchod £'000 | Tai â Chymorth £'000 | Pobl Hŷn £'000 | Perchenogaeth a Rennir £'000 | Cyfanswm 2023 £'000 | Cyfanswm 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | |
| Rhent i'w dderbyn | **10,720** | **1,402** | **1,377** | **174** | **13,673** | 13,249 |
| Incwm o Daliadau Gwasanaeth | **532** | **456** | **1,194** | **-** | **2,182** | 2,139 |
| Incwm o wasanaethau cymorth | **-** | **973** | **-** | **-** | **973** | 963 |
| Grantiau'r Llywodraeth sydd wedi'u Hamorteiddio | **767** | **75** | **135** | **43** | **1,020** | 1,022 |
| Grantiau refeniw eraill | **-** | **13** | **-** | **-** | **13** | 13 |
| **Trosiant o dai cymdeithasol ar osod** | **12,019** | **2,919** | **2,706** | **217** | **17,861** | 17,386 |
| **Gwariant** | | | | | | |
| Costau Rheoli | **2,615** | **560** | **462** | **64** | **3,701** | 3,277 |
| Gwariant Taliadau Gwasanaeth | **677** | **1,830** | **1,297** | **-** | **3,804** | 3,423 |
| Cynnal a Chadw Arferol | **2,086** | **293** | **223** | **-** | **2,602** | 2,597 |
| Gwariant Atgyweiriadau Mawr | **945** | **132** | **101** | **-** | **1,178** | 1,159 |
| Dyledion Drwg | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | 65 |
| Dibrisiant eiddo tai | **1,949** | **190** | **342** | **110** | **2,591** | 2,793 |
| **Costau gweithredu ar dai cymdeithasol ar osod** | **8,272** | **3,005** | **2,425** | **174** | **13,876** | 13,314 |
| **Gwarged gweithredu ar dai cymdeithasol ar osod** | **3,747** | **(86)** | **281** | **43** | **3,985** | 4,072 |
| Colli rhent oherwydd eiddo gwag | **69** | **58** | **29** | **-** | **156** | 89 |

Mae swm o £1,054,963 (2022: £1,042,987) wedi'i gynnwys yn yr incwm Tai â Chymorth ar gyfer Cefnogi Pobl.

## 4. GWARGED CYN TRETH

| **Y Grŵp** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Nodir gwarged cyn treth ar ôl codi:** | | |
| Dibrisiant – eiddo tai | **2,591** | 2,794 |
| Dibrisiant – eiddo, peiriannau ac offer arall | **218** | 218 |
| Amorteiddiad – asedau anniriaethol | **49** | 19 |
| Rhenti prydles gweithredol | **171** | 182 |
| Taliadau'r Archwilydd - gan gynnwys TAW | | |
| - Yn eu capasiti fel archwilwyr | **18** | 25 |
| - O ran gwasanaethau eraill | **-** | - |
| Taliadau a dalwyd i'r archwilwyr mewnol – gan gynnwys TAW | **29** | 27 |

| **Y Gymdeithas** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Nodir gwarged cyn treth ar ôl codi:** | | |
| Dibrisiant – eiddo tai | **2,591** | 2,794 |
| Dibrisiant – eiddo, peiriannau ac offer arall | **218** | 218 |
| Amorteiddiad – asedau anniriaethol | **49** | 19 |
| Rhenti prydles gweithredol | **171** | 182 |
| Taliadau'r Archwilydd - gan gynnwys TAW | | |
| - Yn eu capasiti fel archwilwyr | **15** | 22 |
| - O ran gwasanaethau eraill | **-** | - |
| Taliadau a dalwyd i'r archwilwyr mewnol – gan gynnwys TAW | **29** | 27 |

## 5. GWARGED AR WERTH EIDDO TAI

| **Y Grŵp a'r Gymdeithas** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Elw gwerthiant | **38** | 95 |
| Cost gwerthu | **(15)** | (54) |
| Costau gweinyddol | **(7)** | (6) |
| | **16** | 35 |

## 6. LLOG I'W DDERBYN AC INCWM ARALL

| Y Grŵp a'r Gymdeithas | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog banc i'w dderbyn | **48** | - |
| Llog arall i'w dderbyn | **-** | - |
| | **48** | - |

## 7. LLOG SY'N DALADWY A CHOSTAU ARIANNU

| Y Grŵp a'r Gymdeithas | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Traul llog net darpariaethau buddion pensiwn (nodyn 27) | **56** | 59 |
| Gwaredu'r disgownt ar ddarpariaethau pensiwn (nodyn 27) | **-** | - |
| Ar fenthyciadau Cymdeithasau Adeiladu: | | |
| - sy'n ad-daladwy'n llwyr neu'n rhannol mewn llai na 5 mlynedd | **185** | 111 |
| - sy'n ad-daladwy'n llwyr neu'n rhannol mewn mwy na 5 mlynedd | **1,196** | 1,079 |
| Ar fenthyciadau gan RBS Fresh: | | |
| - sy'n ad-daladwy'n llwyr neu'n rhannol mewn mwy na 5 mlynedd | **147** | 152 |
| Benthyciadau eraill nad ydynt i'w had-dalu'n llwyr o fewn 5 mlynedd | | |
| - Wedi'i gysylltu â Mynegai | **26** | 25 |
| - Stoc Debentur | **834** | 1,081 |
| | **2,444** | 2,507 |
| Llai cost llog wedi'i gyfalafu | **(27)** | (26) |
| | **2,417** | 2,481 |

Cyfalafwyd cyfanswm o o £27,024 (2022: £26,121) o log a dalwyd ar fenthyciadau a ddefnyddiwyd i ariannu un cynllun yn seiliedig ar y cyfraddau llog cyfartalog a dalwyd ar fenthyciadau lle cafwyd gwariant pob mis ar y cynllun.

## 8. TRETHIANT

| **Y Grŵp** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Treth bresennol ar warged cyn treth:** | | |
| Treth gorfforaeth y DU | **-** | - |
| Cyfanswm treth ar warged cyn treth: | **-** | - |

Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y taliadau treth a ddangosir uchod a'r swm a gyfrifir drwy ddefnyddio cyfradd safonol o dreth gorfforaeth y DU i'r gwarged cyn treth fel a ganlyn:

| | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwarged | **1,425** | 1,836 |
| Gwarged cyn treth wedi'i luosi â chyfradd safonol treth gorfforaeth yn y DU o 19% (2022: 19%) | **349** | 349 |
| **Effeithiau:** | | |
| Gweithgareddau elusennol sydd wedi'u heithrio | **(271)** | (349) |
| Colledion nas defnyddiwyd | **-** | - |
| Cyfanswm y dreth am y flwyddyn | **-** | - |

| **Y Gymdeithas** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Treth gyfredol ar warged cyn treth:** | | |
| Treth gorfforaeth y DU | **-** | - |
| Cyfanswm y dreth ar warged cyn treth | **-** | - |

Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y taliadau treth a ddangosir uchod a'r swm a gyfrifir drwy ddefnyddio cyfradd safonol o dreth gorfforaeth y DU i'r gwarged cyn treth fel a ganlyn:

| | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwarged cyn treth | **1,425** | 1,836 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwarged cyn treth wedi'i luosi â chyfradd safonol treth gorfforaeth yn y DU o 19% (2022: 19%) | **271** | 349 |
| **Effeithiau:** | | |
| Gweithgareddau elusennol sydd wedi'u heithrio | **(271)** | (349) |
| Colledion nas defnyddiwyd | **-** | - |
| Cyfanswm y dreth am y flwyddyn | **-** | - |

## 9. CYFLOGAU CYFARWYDDWYR

Diffinnir y cyfarwyddwyr fel aelodau o'r Bwrdd Rheoli ac aelodau o'r Tîm Gweithredol ac fe'u rhestrir ar dudalen 1. Mae enillion yr holl gyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| **Y Grŵp a'r Gymdeithas:** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| ***Tîm Gweithredol:*** | | |
| Cyflogau | **259** | 265 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **34** | 33 |
| Costau pensiwn eraill | **62** | 38 |
| | **355** | 336 |
| ***Bwrdd Rheoli:*** | | |
| Cyflogau | **37** | 42 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **-** | - |
| Costau pensiwn eraill | **-** | - |
| | **37** | 42 |
| Cyfanswm cost Cyflogau Cyfarwyddwyr | **392** | 378 |

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o'r cynllun pensiwn ac nid oes unrhyw delerau gwell neu arbennig yn berthnasol. Yn ôl y disgwyl y Prif Weithredwr yw'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf. Derbyniodd y cyfarwyddwr a dderbyniodd y cyflog uchaf ym mhob blwyddyn y cyflogau canlynol:

| **Y Grŵp** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | **115** | 110 |

| **Y Gymdeithas** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | **115** | 110 |

**9. CYFLOGAU CYFARWYDDWYR (Parhad)**

Mae cyflogau'r cyfarwyddwyr (gan gynnwys y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf ac eithrio'r cyfraniadau pensiwn) yn yr ystodau canlynol:

| **Y Grŵp** | **Nifer 2023** | Nifer 2022 |
|---|---|---|
| £Dim (Bwrdd Rheoli) | **-** | - |
| £1 - £5,000 | **6** | 8 |
| £5,001 – 10,000 | **2** | 1 |
| £20,001 - £25,000 | **1** | |
| £40,001 - £45,000 | **1** | - |
| £75,001 - £80,000 | **-** | 2 |
| £80,001 - £85,000 | **1** | - |
| £95,001 - £100,000 | **-** | - |
| £105,001 - £110,000 | **-** | - |
| £110,001 - £115,000 | **1** | 1 |

Yn unol â Chod Ymddygiad Tai Cymunedol Cymru, mae'r Bwrdd wedi sefydlu polisi a gweithdrefn o ran talu treuliau i aelodau'r Bwrdd. Mae'r Grŵp a'r Gymdeithas yn barod i ad-dalu treuliau allan o boced a dalwyd ar fusnes y Grŵp a'r Gymdeithas.

| **Y Grŵp a'r Gymdeithas** | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Cyfanswm treuliau aelodau'r Bwrdd | **786** | - |

Mae'r holl dreuliau a hawlir gan aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael eu prosesu drwy'r gyflogres a'u cynnwys yn y taliadau a nodir uchod.

## 10. GWYBODAETH AM GYFLOGEION

